# POLISI FFÔNAU SYMUDOL YSGOL GYFUN GŴYR

Yn Ysgol Gyfun Gŵyr, rydym yn cydnabod defnyddioldeb ffonau symudol mewn sefyllfaoedd penodol. Sylweddolwn bwysigrwydd rhieni'n gallu cadw mewn cysylltiad â'u plant drwy ffôn symudol y tu allan i amseroedd ysgol. Fodd bynnag, yn lleol ac yn genedlaethol, mae yna dystiolaeth gynyddol o gamddefnyddio ffonau symudol, gan gynnwys bwlio arlein, defnydd amhriodol o ddelweddau a mathau eraill o aflonyddu. Sylweddolwn hefyd fod y ffaith fod disgyblion yn treulio llawer o'u hamser o flaen sgrîn yn bryder gynyddol oherwydd yr effaith negyddol ar ddysgu a lles. Gall ffonau symudol effeithio ar eu haddysg drwy dynnu sylw dysgwyr yn ystod y diwrnod ysgol. Rhaid i ddysgwyr fedru canolbwyntio'n llawn yn eu gwersi a threulio amser o ansawdd yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn eu hamser rhydd. Yn sgil hyn, wedi ymgynghori gyda'n disgyblion, eu rhieni, staff yr ysgol a llywodraethwyr, bwriadwn weithredu rhai newidiadau i'n polisi ffônau ysgol.

**Golyga hyn y caniateir i ddysgwyr o Fl.7-11:**

- Ddod â ffôn symudol i'r ysgol – ond **RHAID ei ddiffodd (pŵer i ffwrdd) a'i gadw allan o'r golwg** yn ystod y diwrnod ysgol (8:30yb – 15:10yh). Yr eithriad i hyn fydd yn ystod amser egwyl a chinio **yn y ffreutur yn unig** er mwyn archebu a chasglu eu bwyd ar yr ap.

- Os oes angen i ddysgwyr ddefnyddio eu dyfais symudol am reswm hanfodol – **rhaid iddynt ofyn am ganiatâd gan aelod o staff** yn gyntaf.

- Os oes gan ddysgwyr ADY a bod angen defnyddio'i ffôn i gofnodi gwaith cartref, tynnu llun o waith o'r bwrdd gwyn a.y.y.b., dylid gwneud hyn mewn modd cyfrifol, gan sicrhau nad yw'n effeithio ar bobl eraill.

- Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio eu ffôn **yn barchus wrth deithio** i /o'r ysgol – h.y. Dim tynnu lluniau / fideos / negeseuon cyfryngau cymdeithasol am ddisgyblion eraill, dim negeseuon cas / bwlio ar-lein, dim uchelseinyddion ac ati.

- Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio eu ffôn yn ystod gwersi **gyda chaniatâd staff** – at ddibenion addysgol e.e. defnyddio gwefannau fel Kahoot, dibenion ymchwil ac ati. RHAID diffodd ffonau symudol eto yn dilyn y wers honno.

- Caniateir i fyfyrwyr ym ml.12 a 13 ddefnyddio eu ffonau yng Nghanolfan Astudio'r Chweched ond gofynnir iddynt beidio a'u defnyddio o amgylch safle'r ysgol.

**O ganlyniad, NI chaniateir i ddysgwyr o Fl.7-11:**

- Ddefnyddio eu dyfais symudol heb ganiatâd ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol (8:30yb – 15:10yh), ag eithrio er mwyn archebu / casglu bwyd yn y ffreutur.
- Adael eu dyfais ymlaen (wedi'i bweru) yn ystod y diwrnod ysgol, oherwydd bod hysbysiadau yn gallu tarfu ar ddysgu disgyblion a chael effaith negyddol ar ddysgu a lles disgyblion.
- Defnyddio clustffonau e.e. Airpods / uwchseinyddion (e.e. rhai a gysylltir drwy Bluetooth) yn ystod y diwrnod ysgol.

**Canlyniadau:**

- **Yn ystod gwersi**, os nad yw dysgwr yn dilyn yr amodau uchod, gofynnir i'r dysgwr osod ei ffôn mewn bocs ar ddesg yr athro. Caiff y dysgwr ei ffôn yn ôl ar ddiwedd y wers. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar ClassCharts.
- Os nad yw dysgwr yn dilyn yr amodau uchod **y tu allan i'r gwersi,** bydd eu ffôn yn cael ei gymryd a'i drosglwyddo i swyddfa'r ysgol i'w gasglu gan y dysgwr ar ddiwedd y dydd. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar ClassCharts.
- Os yw dysgwr yn gwrthod cydymffurfio, bydd yr aelod o staff yn cysylltu â'r swyddfa a bydd aelod o'r TARh yn cael eu galw. Canlyniad gorfod galw am aelod o'r TARh fydd y ffôn symudol yn cael ei drosglwyddo i'r saff tan ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd y dysgwr yn cael ei hebrwng i'r Uned Gosb. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar ClassCharts.
- Os yw'r dysgwr yn gwrthod mynd i'r Uned Gosb, cysylltir â'r rhieni.
- Os yw dysgwr yn derbyn 3 chofnod ClassChart am eu defnydd o'i ffôn symudol, bydd hyn yn arwain at ganlyniadau pellach e.e. y ffôn yn cael ei roi yn y swyddfa tan ddiwedd y dydd, rhieni/gofalwyr yn gorfod casglu'r ddyfais, colli'r fraint o ddod â ffôn i'r ysgol yn gyfan gwbl am gyfnod penodol o amser.
- Bydd unrhyw **gamddefnydd mwy difrifol** o ffôn yn ystod y diwrnod ysgol (e.e. tynnu lluniau neu fideos, bwlio ar-lein neu negeseuon cas ac ati) yn arwain at ganlyniadau mwy difrifol, yn unol â chôd ymddygiad yr ysgol.

## Cwestiynau Cyffredinol:

**Mae angen i mi gysylltu â'm plentyn yn ystod y diwrnod ysgol – sut alla i wneud hynny?**

- Rydym yn deall y gall rhiant fod eisiau cysylltu â'u plentyn ar adegau, yn ystod y diwrnod ysgol. Mewn sefyllfa o'r fath, gofynnwn i rieni ddilyn ein polisi presennol drwy ffonio swyddfa'r ysgol (01792 872 403) a bydd neges yn cael ei chyfleu i'ch plentyn ar unwaith. Gall hyn gynnwys neges iddynt droi eu ffôn symudol ymlaen er mwyn derbyn neges/galwad.

**Mae angen i'm plentyn gysylltu â mi (rhiant) yn ystod y diwrnod ysgol – sut gallant wneud hynny?**

- Dylai unrhyw ddysgwr sydd angen cysylltu adref ofyn am ganiatâd gan aelod o staff cyn gwneud hynny. Gall dysgwyr ddefnyddio'r ffôn yn y Brif Dderbynfa hefyd i gysylltu â rhieni/gofalwyr os oes angen. Mae gennym rif ffôn pob rhiant/gofalwr ar ein system pe bai ei angen ar y plentyn.

**Mae fy mhlentyn yn defnyddio ap i archebu bwyd yn y ffreutur. Sut fyddan nhw'n rheoli hyn nawr?**

Rhoddir caniatad i ddysgwyr ddefnyddio eu ffonau yn ystod amser egwyl / cinio wrth iddynt ddangos rhif eu harcheb bwyd i staff y ffreutur. Ar ôl gwneud hyn, rhaid rhoi'r ffôn heibio yn eu bagiau.

**Beth os yw dysgwr yn defnyddio'i ffôn er mwyn edrych ar eu hamserlen neu i nodi gwaith cartref?**

- Derbynia pob dysgwr gopi papur o'u hamserlen ar ddechrau'r flwyddyn. Dylid gludo'r copi hwn yn ddiogel yn y llyfryn nodiadau a ddarperir i bob disgybl. Os oes angen copi arall, gellir cael un o swyddfa'r ysgol. Mae gan bob aelod o staff hefyd fynediad at amserlenni pob dysgwr a gallant gynorthwyo os oes angen.

- Dylai dysgwyr wirio/trefnu eu gwaith cartref cyn dod i'r ysgol (yn ddelfrydol y noson gynt). Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr wirio/gweld gwaith cartref yn ystod y diwrnod ysgol.

**Beth am ddysgwyr ADY sy'n defnyddio'u ffôn i dynnu lluniau o nodiadau o'r bwrdd gwyn neu er mwyn monitro unrhyw gyflyrrau meddygol. A oes hawl ganddynt ddefnyddio eu ffonau?**

Bydd hawl gan ddysgwyr ADY ddefnyddio eu ffonau ar gyfer dibenion addysgol neu feddygol (e.e. ar gyfer apiau sy'n monitro clefyd y siwgr). Fodd bynnag, monitrir y defnydd hwn er mwyn sicrhau nad ydynt yn cymryd mantais o'r sefyllfa e.e. chwarae gemau neu ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol tra'n esgus defnyddio'u ffonau am resymau addysgiadol neu feddygol. Gall apiau monitro clefyd y siwgr weithio o bellter o sawl metr ac felly gellir cadw'r ffôn naill ai o'r golwg yn y bag (gyda'r sain ymlaen yn ddigon uchel i'w glywed) neu ar ddesg yr athro ymlaen y dosbarth.

**Beth yw'r sefyllfa o ran cael ffôn symudol mewn arholiad?**

Mae ffonau symudol wedi eu gwahardd o **BOB** arholiad. RHAID i ddysgwr adael ei ffôn yn ei fag cyn mynd i mewn i'r ystafell arholiad, neu roi ei ffôn i arolygwyr CYN eistedd wrth ei ddesg yn yr arholiad. Bydd unrhyw fyfyriwr sy'n cael ei ddal gyda ffôn symudol yn ei feddiant yn ystod arholiad yn cael ei anghymwyso am y papur hwnnw. Gall digwyddiad o'r fath arwain at bob papur arholiad arall yn cael eu hanghymwyso hefyd.

Mae angen i rai dysgwyr gael golwg uniongyrchol ar eu ffôn symudol i reoli clefyd y siwgr (neu unrhyw gyflwr iechyd cronig arall) yn ystod eu harholiad. Fel arfer, ni chaniateir ffonau symudol mewn ystafell arholiad, ond gellir gwneud cais i'r Bwrdd Arholi ofyn am ganiatad ar gyfer defnyddio ffôn at ddibenion meddygol. Gwneir hyn trwy gyflwyno cais am Drefniadau Mynediad Ar-lein.

Os yw'r Bwrdd Arholi yn caniatáu, gofynnir i'r dysgwr osod ei ffôn symudol mewn man lle bydd yn cael ei fonitro'n effeithiol gan y goruchwyliwr. Gall hyn fod ar ddesg wag sbâr o fewn golwg y dysgwr neu ar ddesg y goruchwyliwr. Dim ond os mae'r trefniant hwn wedi'i wneud ymlaen llaw ar gyfer cyflwr meddygol penodol y caniateir mynd â ffôn i mewn i'r ystafell arholiad.

**Nid yw fy mhlentyn yn mynd i ymdopi heb i'w ddyfais gael ei throi ymlaen.**

- Mae dibyniaeth ar y ffôn yn bryder cynyddol i lawer ohonom. Bydd adegau pan fydd yn rhaid i bobl ifanc ac oedolion fynd heb eu ffôn symudol am wahanol resymau e.e. ni chaniateir ffonau symudol mewn unrhyw ystafell arholiadau. Teimlwn ei bod yn well addysgu a chefnogi dysgwyr a phobl ifanc nawr, cyn iddi ddod yn broblem fwy difrifol.

Mae cefnogaeth rhieni gyda hyn yn hanfodol bwysig ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae llawer o astudiaethau i effeithiau negyddol amser sgrin ar iechyd meddwl, lles a datblygiad ymenyddol pobl ifanc a theimlwn ei fod yn ddyletswydd arnom i gymryd y camau pwysig hyn er mwyn ceisio cefnogi lles a dysgu pob disgybl.

**Adolygwyd**: Gorffennaf 2026